

ADRODDIAD BLYNYDDOL I RIENI GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL



2024- 2025

Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes

Lles, Dyheadau Uchel a Pherthnasoedd

Annwyl Rian/Warcheidwad,

Mae'n bleser gennym gyflwyno Aroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn unol â Rheoliadau Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2011.

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau darllen am flwyddyn lwyddiannus ein hysgol. Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os ydych am gael rhagor o wybodaeth am unrhyw beth, neu os hoffech gynnig sylw ar yr adroddiad hwn.

Yn gywir,

Mike Landers

Cadeirydd
Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes,
Bryn Celyn,
Caerdydd, CF23 7EH

Rhif ffôn: 029 2073 5723

Cynnwys

Gair gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol	4
Llywodraethwyr Ysgol	6
Gwybodaeth am yr ysgol	7
Datblygiadau Cwricwlaidd a gweithgareddau amrywiol	9
Ymweliadau ac Ymwelwyr.....	10
Cysylltiadau â'r gymuned.	11
Cysylltiadau â rhieni	12
Anghenion Dysgu Ychwanegol	13
Presenoldeb ac Absenoldebau	14
Blaenoriaethau ysgol 2025-2026.....	15
Datganiad ariannol.....	16

Neges gan Gadeirydd y Corff Llywodraethol

Mae'n bleser mawr i mi allu cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr eleni. Mae'n cwmpasu'r Flwyddyn Ysgol o fis Medi 2024 i fis Gorffennaf 2025.

Mae'r Llywodraethwyr yn dymuno diolch i Mrs Fenner a holl aelodau'r staff addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu am eu harweinyddiaeth gref a'u hymroddiad, eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus i'r Ysgol a'i disgyblion.

Yn ystod tymor yr Hydref, croesawyd dychweliad Mrs Fenner o salwch. Yn ei habsenoldeb, profodd Mr Cleverley ei fod yn Ddirprwy Bennaeth hynod alluog ac arweiniodd yr Ysgol drwy gyfnodau heriol. O fis Mawrth ymlaen, bu'n rhaid i'r Cadeirydd gymryd absenoldeb hirdymor a phrofodd Dr Mathew Pugh ei fod hefyd yn hynod alluog.

Rydym yn elwa o nifer fawr o staff cymorth gweithgar gan gynnwys ein Gweinyddwr Swyddfa, staff y gegin, ein Gofalwr a'n glanhawyr. Mae'r flwyddyn academiaidd hon wedi gweld diwydrwydd ac ymroddiad pob un. Fel Cymuned Ysgol rydym yn ddyledus i chi.

Rwy'n ddiolchgar iawn i gyd-Lywodraethwyr a roddodd gymaint o amser drwy gydol y cyfnod hwn. Mae eu dyletswyddau wedi cynnwys Rheolaeth Ariannol, y Cynllun Gwella Ysgol, cynnydd academiaidd a goruchwyllo'r gweithdrefnau.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r gweithgareddau y mae ein plant wedi bod yn eu mwynhau.

Mae'n ddathliad o'n cyflawniadau. Mae cymuned ein hysgol yn gweithio tuag at nod cyffredin: rhoi addysg ragorol i bob plentyn wrth deimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn werthfawr.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ysgol wedi gorfod delio â chyfnodau ariannol anoddach. Mae'r ffaith bod ein niferoedd yn isel wedi gwaethygu'r problemau. Fodd bynnag, bydd darllen yr adroddiad hwn yn dangos bod eich plentyn yn mynychu ysgol ragorol.

Mae croeso i chi gysylltu â Chadeirydd y Llywodraethwyr neu'r Pennaeth os hoffech gael gwybodaeth ychwanegol, neu os hoffech wneud sylw am yr adroddiad hwn.

Diolchwn i bob rhiant, gwarcheidwad a gofalwr am eich cefnogaeth barhaus.

Cofion cynnes,

Mike Landers, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Llywodraethwyr Ysgol

Cadeirydd Mr Mike Landers (Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol)

Is-Cadeirydd Dr Mathew Pugh (Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol)

Pennaeth Mrs Anne Fenner

Clerc i'r Llywodraethwyr Mr Brett Jones
Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes
Pentwyn, Caerdydd
CF23 7EH

Rhieni Mrs Sarah Bonnett
Mr Duncan Lackie
Mr Max Smaldon
Ms Emma Balsdon

Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol Mrs Amy Pope

Llywodraethwyr Cymunedol Mrs Joanne Childs-Hill

Staff Ms Rebeca James (Cynrychiolydd staff addysgu)
Ruth Morgan (Cynrychiolydd staff cynorthwyol)

Ar hyn o bryd mae 1 swydd Cymunedol gwag.

Gwybodaeth am yr ysgol

Math: Cynradd

Ystod Oedran: 4-11

Amser dysgu'r wythnos: Ysgol isaf : 22 awr a 30 munud

Ysgol Uchaf: 22 awr a 55 munud

Staffio 2024-2025

Meithrin a Derbyn:	Mr J Hughes(A) Mrs K Rees (C)
Blwyddyn 1a2:	Miss S Williams (A) Mr F Fells (C)
Blwyddyn 3:	Miss C Evans(A) / Miss S Noon-Jones (A)
Blwyddyn 4:	Mr T Cleverley (A) Miss L Bailey (C)
Blwyddyn 5 a 6:	Miss C Nolan (A)
CADY:	Ms R James
Athro CPA:	Ms R James (A)
Cynorthwydd Ymyrraeth	Miss L Bailey
Clerc:	Mrs R Morgan

Arweinydd Her y Consortiwm: Mrs Rhian Williams

Niferoedd disgyblion —Medi 2025

Meithrin: 6

Derbyn: 7

Blwyddyn 1: 13

Blwyddyn 2: 17

Blwyddyn 3: 14

Blwyddyn 4: 18

Blwyddyn 5: 12

Blwyddyn 6: 9

Dyddiadau'r Tymor 2025—2026

Tymor	Tymor yn cychwyn	Hanner Tymor		Diwedd tymor
Tymor yr Hydref	Llun Medi 1 2025	Llun Hydref 27 2025	Gwener Hydref 31 2025	Gwener Rhagfyr 19 2025
Tymor y Gwanwyn	Llun Ionawr 5 2026	Llun Chwefror 16 2026	Gwener Chwefror 20 2026	Gwener Mawrth 27 2026
Tymor yr Haf	Llun Ebrill 13 2026	Llun Mai 25 2026	Gwener Mai 29 2026	Llun Gorffennaf 20 2026

Gwyl y Banc : Llun 4ydd o Fai 2026

Diwrnodau Hyfforddiant i staff (Dim ysgol i'r disgyblion)

01/09/25 – Hyfforddiant i staff

24/10/25 – Hyfforddiant i staff

09/01/26 - Hyfforddiant i staff

13/04/26– Hyfforddiant i staff

19/06/26—Hyfforddiant i ysgolion clwstwr Bro Edern

20/07/26—Hyfforddiant i staff

Rhoddion i Elusen

Plant mewn angen - Trefnodd yr ysgol weithgareddau hwyliog ar gyfer Diwrnod Plant Mewn Angen ym mis Tachwedd. Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo smotiau neu byjamas a chodwyd £117.20 tuag at yr achos da.

Cynhaliwyd diwrnod codi arian i Tafwyl eleni drwy wisgo dillad gwyn coch neu wyrdd i'r ysgol, fe gododd yr ysgol £103.50. Hyfryd oedd clywed plant yr adran isaf yn perfformio yn Tafwyl eleni yn yr ŵyl yng nghanol y ddinas.

Banc Bwyd Caerdydd -Fel rhan o'n casgliad Diolchgarwch fe wnaethon ni gasglu bwyd ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Bydd hyn yn cefnogi llawer o bobl ar draws y ddinas unwaith eto eleni.

Datblygiadau'r Cwricwlwm a gweithgareddau amrywiol

Ysgolion Iach

Mae plant yn yr Adran Isaf yn cael eu hannog i ddod â darn o ffrwyth yn ddyddiol a chael llaeth am ddim bob dydd. Yn yr Adran Uchaf, mae disgyblion yn cael eu hannog i ddod â ffrwythau i'r ysgol yn ddyddiol i'w bwyta yn ystod amser chwarae.

Mae pob plentyn hefyd yn cael ei annog i ddod â photel o ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol. Mae dŵr yfed ar gael i bob plentyn drwy gydol y dydd.

Gofynnwn i rieni sy'n paratoi pecynnau bwyd i'w plant gefnogi polisi bwyta'n iach yr ysgol trwy beidio â chynnwys siocled, losin ac ati yn y bocs bwyd.

Mae Addysg Iechyd yn elfen sylweddol ac annatod o'r cwricwlwm i bob disgybl fel eu bod yn caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion iechyd ac yn datblygu'r sgiliau a'r agweddau priodol sy'n arwain at ffordd gyfrifol ac iach o fyw.

Diwrnod y Llyfr

Ar Ddiwrnod y Llyfr eleni cafodd disgyblion eu hannog i ddod i'r ysgol wedi eu gwisgo fel eu hoff gymeriad o lyfr a threulio'r diwrnod yn mwynhau gweithgareddau yn seiliedig ar wahanol lyfrau pleserus.

Diwrnod Helo Melyn

Anogwyd y disgyblion i wisgo rhywbeth melyn i'r ysgol ar gyfer Diwrnod Helo Melyn. Dyma ddiwrnod lle rydym yn codi ymwybyddiaeth o weithgareddau y gallwn eu gwneud i annog iechyd meddwl da.

Diwrnod Shw' mae

Fe wnaethon ni ddathlu diwrnod Shwmae Sumae i hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae, su'mae neu shwdi! Mae'r diwrnod yn dangos bod y Gymraeg yn perthyn i ni gyd - siaradwyr rhugl, dysgwyr neu'r rhai sy'n swil am eu Cymraeg.

Dydd Miswig Cymru

Ar Ddiwrnod Miwsig Cymru eleni cafodd pob disgybl gyfle i wrando a mynegi eu barn ar gerddoriaeth Gymraeg a chawsom disgo gwych yn y neuadd i bawb fwynhau cerddoriaeth Cymraeg.

Eisteddfod Clwstwr yr Urdd

Roedd hi'n hyfryd gweld disgyblion yr ysgol yn cystadlu yn yr Eisteddfod Clwstwr eleni yn canu neu'n adrodd. Eleni cymerodd y disgyblion ran yn y cogurdd ac aeth yr enillydd ymlaen i gymryd rhan yn y gystadleuaeth ranbarthol gan arddangos ei sgiliau coginio. Roedd y disgyblion hefyd yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth gelf eleni a daethom yn 1af, 2il a 3ydd ar draws gwahanol gystadlaethau.

Eisteddfod

Cynhaliodd yr ysgol ei heisteddfod flynyddol a mwynhaodd pawb wrando ar dalentau llawer o'n disgyblion. Roedd yn hyfryd gweld llawer o'n disgyblion yn cynrychioli'r ysgol eleni yn Eisteddfod clwstwr yr Urdd ac yn enwedig y côr bach a ganodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Margam

Senedd Ysgolion Cymraeg Caerdydd

Cafodd aelodau cyngor yr ysgol gyfle i fynychu cyfarfodydd Senedd ysgolion cyfrwng Cymraeg Caerdydd. Cawsant gyfle i drafod y terfynau cyflymder 20mya ledled Cymru.

Digwyddiadau eraill i ddisgyblion

Cymerodd y disgyblion ran mewn amrywiaeth o weithgareddau i ddyfnhau eu dealltwriaeth a'u sgiliau ar ein diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Diwrnod Arbed Ynni a Diwrnod Dysgu yn yr Awyr Agored.

Ymweliadau ac Ymwelwyr

Ymweliadau Addysgiadol

Mae ymweliadau addysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion, gan helpu i ddod â phynciau'r ystafell ddosbarth yn fyw mewn ffyrdd ystyrlon a diddorol. Rydym yn ffodus i gael y gefnogaeth sy'n ein galluogi i ddarparu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn i'n disgyblion.

Eleni, dechreuodd Blwyddyn 3 a 4 gydag ymweliad â Sain Ffagan fel rhan o'u hastudiaeth o'r Celtiaid. Cafodd Blwyddyn 5 a 6 amser gwych yn dysgu popeth am y pyllau glo ym Mhwll Mawr. Fel bob amser, cafodd Blwyddyn 6 amser gwych yn Llangrannog, gan ymuno ag ysgolion eraill yn y clwstwr am drip preswyl bythgofiadwy. Cafodd Blwyddyn 5 amser i ffwrdd o gartref yn Storey Arms hefyd a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd a chyffrous.

Archwiliodd Blwyddyn 1 a 2 yr ardal leol a mwynhau profiad ymarferol o wneud pitsas yn Pizza Express.

Mae'r profiadau hyn nid yn unig yn cefnogi dysgu academiaidd ond hefyd yn meithrin hyder, chwilfrydedd, a chysylltiad dyfnach â'r byd o'u cwmpas.

Mwynhaodd y disgyblion bantomeim eleni hefyd gyda thaith i'r Barri i wyllo Culwch ac Olwen.

Ymwelwyr

Eleni, trefnodd y staff ystod eang o ymwelwyr cyffrous i wella dysgu'r disgyblion a darparu profiadau cofiadwy.

Cynhaliodd y Frigâd Dân eu sesiynau blynyddol gyda Blynyddoedd 2 a 5, a oedd yn cynnwys gweithgaredd ymarferol pleserus—socian ceir staff yn y maes parcio â dŵr!

Datblygodd Blynyddoedd 5 a 6 eu sgiliau diogelwch ffyrdd a beicio yn ystod eu gweithdai beicio a datblygodd yr ysgol uwchradd eu sgiliau yn ystod sesiynau criced.

Fe wnaethon ni wahodd Bullies Out i'r ysgol i gynnal sesiynau gyda'r holl ddisgyblion a chynhaliwyd amrywiol weithgareddau yn ystod wythnos Gwrth-fwlio ym mis Tachwedd.

Mae Coed dros Ddinasoedd yn dal i gefnogi'r ysgol gyda'r ardaloedd awyr agored a chynnal sesiynau gyda'r disgyblion am y diwrnod.

Dysgodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 bopeth am ddiogelwch dŵr gyda sesiynau gan Ddŵr Cymru a dysgon nhw hefyd am ffyrdd eraill o gadw'n ddiogel gyda gweithdy Streetwise.

Ymwelodd nyrsys â'r ysgol i gynnal profion sgrinio blynyddol ar gyfer disgyblion Derbyn a rhoi brechiadau fflw i bob disgybl. Daeth yr Heddlu hefyd i ymweld â disgyblion blwyddyn 1 fel rhan o'u gwaith thema ar Bobl sy'n ein helpu.

Ymwelodd aelodau o Eglwys yr Holl Saint i arwain gwasanaethau, ochr yn ochr â gwasanaethau a gyflwynwyd gan Mr. Adam Coleman.

Cafodd disgyblion iau hefyd berfformiad cyffrous gan Cyw a'r cast, gan greu profiad hwyliog a diddorol. A mwynhaodd y disgyblion Jambori'r Urdd hefyd.

Roedd yr ymweliadau hyn yn rhoi cyfleoedd dysgu amhrisiadwy i ddisgyblion, ac rydym yn ddiolchgar am y gefnogaeth sy'n eu gwneud yn bosibl.

Cysylltiadau â'r gymuned

Kerbcraft

Dysgodd Blwyddyn 2 hefyd sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y ffyrdd trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau diogelwch y ffordd gyda thîm Kerbcraft.

Ysgol Gyfun Bro Edern

Dechreuodd 2024 gyda noson agored i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 yn Ysgol Bro Edern wrth iddynt weld y cyfleoedd sydd ar gael iddynt wrth symud ymlaen i'r camau nesaf yn eu haddysg.

Roedd llawer o gyfleoedd i ddisgyblion greu cysylltiadau â'u hysgol uwchradd eleni trwy wersi Almaeneg bob pythefnos i ddisgyblion blwyddyn 6, treulion nhw ddiwrnodau pontio yn Ysgol Bro Edern a chrosawon ni hefyd ddisgyblion o Ysgol Bro Edern a ddaeth i roi cyfleoedd i'r disgyblion ofyn cwestiynau am fywyd ym Mro Edern.

Derbynion ni hefyd fyfyrwyr CACHE o Ysgol Bro Edern wrth iddynt hyfforddi i weithio gyda phlant yn y dyfodol.

Cafodd disgyblion blwyddyn 5 a 6 gyfle i wyllo Sioe Bro Edern 'Swyn y Gân' ac roedd yn hyfryd gweld rhai o'n cyn-ddisgyblion yn cymryd rhai o'r prif rolau.

Fel clwstwr, cafodd disgyblion y cyfle i fynychu Llangrannog. Cafodd y disgyblion lu o gyfleoedd anturus yn ogystal â'r cyfle i gwrdd â disgyblion blwyddyn 6 a 7 y clwstwr.

Mynychodd y Pennaeth Gweithredol newydd a Phennaeth yr Ysgol gyfarfod hefyd i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 i gyflwyno eu hunain i'r rhieni a'r disgyblion.

Uchafbwynt y flwyddyn oedd y Noson Ddiwylliannol ym Mro Edern lle cymerodd holl ysgolion y clwstwr ran yn arddangos eu gwaith celf, eu doniau arwyddo a pherfformio. Rhan o'r gwaith celf a oedd ar ddangos oedd gwaith a grëwyd mewn cydweithrediad â'r ysgolion cynradd eraill yn y clwstwr.

Crucial Crew

Dysgodd Blwyddyn 6 am sut i gadw eu hunain yn ddiogel drwy weithdai ar ddigwyddiadau'r 'Crucial Crew'.

Tafwyl

Roedd hi'n wych cefnogi gŵyl flynyddol Menter Caerdydd ym Mharc Bute lle roedd disgyblion yn yr ysgol isaf yn diddanu rhieni a gofawyr yng ngŵyl Tafwyl. Roedd eu canu yn bleser i bawb ac arhosodd llawer i fwynhau'r gweithgareddau am ddim oedd ar gael yn ystod y digwyddiad deuddydd.

Deintyddion ysgol

Hefyd eleni rydym wedi croesawu deintyddion yr ysgol yn ôl sy'n helpu hyfforddi a chefnogi staff i gadw dannedd ein disgyblion yn lân. Cafodd y disgyblion ymweliadau hefyd i gymhwyso farnais i'w dannedd gan y deintyddion.

Prifysgol Casnewydd

Derbyniom fyfyrwyr eleni sy'n hyfforddi i fod yn athrawon y dyfodol. Roedd yn gyfle gwych i gydweithio gyda Phrifysgol Casnewydd eleni.

Addewid Caerdydd

Cymerodd disgyblion Blwyddyn 6 ran yng Nghynghrair Lego eleni gan dderbyn hyfforddiant ar Lego a chymryd rhan mewn cystadleuaeth lle cawsant wobwr cydweithio a dyfalbarhad.

Roedd yr ysgol hefyd yn ffodus iawn i weithio gydag Addewid Caerdydd i drefnu sesiynau i'n disgyblion blwyddyn 3 a 4 i greu fideo i dynnu sylw at yr ysgol a'r iaith Gymraeg.

Siarter Iaith

Dathlwyd diwrnod Seren a Spark gyda phlant yn cael hwyl ac yn dathlu eu Cymreictod. Roedd hefyd yn bleser cael ymweliad gan Seren a Spark eu hunain! Eleni rydym wedi casglu ein gwobrau Siarter Cymru ar gyfer y wobwr Efydd ac Arian. Ar ddiwedd y flwyddyn fe wnaethom hefyd gyflawni'r wobwr Aur ac edrychwn ymlaen at dderbyn ein tystysgrif yn fuan.

Estyn

Ymwelodd Estyn â'r ysgol ym mis Chwefror i gwblhau eu hymweliad Interim. Roeddent yn falch iawn o'r cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud a gellir darllen manylion eu canfyddiadau ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Bardd Ysgolion Cymru

Roeddem yn ffodus i dderbyn ymweliadau gan ddau awdur/bardd o Gymru eleni. Yn gyntaf, croesawom Meilyr Sion a weithiodd gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 ar ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu straeon. Yn ail, cawsom ymweliad gan Fardd o Gymru - Gwenan Evans a weithiodd eto gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 i ddatblygu eu sgiliau barddoniaeth.

Gweithgareddau chwaraeon

Cymerodd y disgyblion hŷn ran mewn amryw o gystadlaethau chwaraeon eleni, er enghraifft, Pêl-droed 5 bob ochr i'r bechgyn a'r merched a rhywfaint o gystadleuaeth rygbi tag. Roedd yn wych gweld yr ysgol yn cael ei chynrychioli.

Technocamps

Datblygodd y disgyblion eu sgiliau TG pan ddarparodd Technocamps rai sesiynau i'r holl ddisgyblion.

Ysgol Ddrama Cinetig

Roedd yn wych croesawu Ysgol Ddrama Cinetig i gynnal gweithdai drama i'r ysgol ac fe wnaethant gefnogi'r sioe diwedd blwyddyn.

Ysgol Bro Morgannwg

Croesawyd myfyriwr o Ysgol Bro Morgannwg eleni a oedd yma am wythnos o brofiad gwaith.

Diwrnod Chwaraeon

Cynhaliwyd ein diwrnod chwaraeon blynyddol yr haf hwn ac roedd yn bleser gweld rhieni a gofalwyr yn dychwelyd i'r ysgol i gefnogi eu plant. Da iawn i dîm Celyn am ennill eleni.

Cysylltiadau â rhieni

Mabolgampau

Cynhaliwyd ein diwrnod chwaraeon blynyddol yr haf hwn ac roedd yn bleser gweld rhieni a gofalwyr yn dychwelyd i'r ysgol i gefnogi eu plant. Da iawn i dîm Celyn am ennill eleni.

Cyflwyniadau i rieni

Eleni, cawsom groesawu rhieni newydd i'r dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i'r ysgol wrando ar gyflwyniad am yr ysgol. Roedd yn gyfle i rieni a gofalwyr ofyn cwestiynau am gychwyn eu plentyn/plant mewn addysg ysgol.

Ymhlith y cyflwyniadau rhieni eraill a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn roedd sesiwn groeso gyda'r nos ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, sesiynau rhannu gwybodaeth am Langrannog a Storey Arms. Cynhaliwyd sesiwn Hwiangerddi i rieni wrth iddynt wrando ar y plant yn canu yn ogystal â chyflwyniad ar ein rhaglen ddarllen Tric a Clic.

Gwahoddom hefyd swyddogion o'r awdurdod lleol a roddodd sgwrs ar gydnabod a deall Awtistiaeth a Niwroamrywiaeth. Roedd yn sesiwn addysgiadol iawn.

Gwasanethau a Chyngherddau Ysgol

Cawsom lawer o gyfleoedd eto eleni i wahodd ein rhieni i'r ysgol i weld gwasanaethau dosbarth eu plant wrth iddynt rannu eu gwaith dosbarth.

Roedd yn hyfryd gwahodd rhieni i'r ysgol ar gyfer Sioe Nadolig yr ysgol iau a hefyd yr ysgol Uchaf a ddi-ddanodd gyda Gwasanaeth Carolau yn Eglwys yr Holl Saint yng Nghyncoed. Cynhaliom hefyd nifer o weithdai gyda rhieni a phlant lle cafodd rhieni'r cyfle i weithio gyda'u plentyn i greu cardiau Nadolig, a chymryd rhan yn ein gweithdai dylunio a thechnoleg. Cynhaliom wasanaeth Diolchgarwch a chasglwyd bwyd ar gyfer elusen y Banc Bwyd eto eleni.

Gwasanaeth, sioe a phicnic gadael blwyddyn 6

Roedd hi'n hyfryd cael y cyfle eleni i ddisgyblion blwyddyn 6 roi sioe 'Y Dewin Os' i'w teuluoedd ei mwynhau cyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn Ysgol Bro Edern. Cynhaliwyd gwasanaeth ymadael i'r disgyblion lle buont yn rhannu eu hatgofion o'r ysgol a hefyd yn mwynhau picnic ar gae'r ysgol a chyflwynwyd anrhegion i'r rhai oedd yn gadael trwy roddion gan Gyfeillion Pen-y-Groes (PTA).

Adrodd i rieni

Cynhaliwyd nosweithiau rieni yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn ac fe roddwyd adroddiad ysgrifenedig i rieni ar ddiwedd y flwyddyn academaidd.

Ffrindiau (CRhA)

Roedd y Ffrindiau yn hynod o brysur eto eleni wrth iddynt gynnal Ffair Nadolig, gwerthiant cacennau, Helfa Wyau Pasg, Disgo, Siop Elfridges a gwerthiant cacennau. Dyma restr o'r gweithgareddau a'r swm a godwyd

Gwerthiannau gwyh £188.49

Lluniaeth Mabolgampau £131

Ffair Haf £932.13

Lluniaeth Dewin Oz £74.70

Arwerthiant cacaennau Roald Dahl £170

Arwerthiant cacennau Noson Rhieni £107.98

Arwerthiant cacennau Dydd Gŵyl Dewi £107.98

Arwerthiant cacennau Santes Dwynwen £111.60

Blychau arian rhesin £140.46

Ffair Nadolig £696.77

Elfridges £245.17

Disgo ysgol Calan Gaeaf £218.53

Cododd yr holl weithgareddau hyn gyfanswm o £3,124.81.

Hoffem ddiolch i bob rhiant ac aelodau'r PTA am eu cyfraniad wrth baratoi a chyfrannu at y digwyddiadau hyn. Mae eich gwaith a'ch cefnogaeth wedi sicrhau bod y gweithgareddau a'r adnoddau canlynol ar gael i bob disgybl yn yr ysgol:

2 fws ar gyfer trip ysgol

Dosbarth gwehyddu basgedi

Gazebo

Ffrâm ddringo

Prosiect ardd ysgol

Anrheg Nadolig ysgol is

Special Educational Needs

Nod

Sicrhau bod disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn cael y cyfleoedd gorau posibl i dderbyn cwricwlwm eang a chytbwys. I gwrdd ag anghenion addysgol pob disgybl.

Mae Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yr ysgol yn cysylltu yn rheolaidd â phob athro/athrawes ddosbarth drwy gydol pob tymor gan fonitro cynnydd y disgyblion a nodi pa ddisgyblion sydd yn peri pryder. Byddant yn cydweithio â'r athro/athrawes ddosbarth i gynllunio'r Cynllun Addysg Unigol(CAU) Mae'r ysgol yn derbyn arian o ddwy ffynhonnell ar gyfer ADY sef y gyllideb a'r arian ychwanegol a geir ar gyfer disgyblion sydd ar gamau uwch y cod ymarfer. Dilynir canllawiau'r Cod Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 yn Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes, yn unol â Deddf Addysg 1993. Mae'r Ysgol yn cael cymorth a chynghor y Gwasanaeth Cynnal Disgyblion ac mae athrawon ymgynghorol y sir yn ymweld â'r ysgol yn achlysurol.

Mae'r polisi yn manylu ar sut mae disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hadnabod a sut mae'r cymorth angenrheidiol ychwanegol yn cael ei ddarparu. Mae'r ysgol yn sicrhau bod bob plentyn yn cael cyfle i ddilyn pynciau'r cwricwlwm yn llawn hyd eithaf ei allu/gallu. Y mae'r plant ag ADY yn cael eu hintegreiddio yn llawn i fywyd ysgol. Gwerthfawrogir cyfraniad pob plentyn at bob agwedd ar fywyd yr Ysgol. Mewn achos o gwyn gan rieni fe fydd cyfle iddynt fynd â'u cwyn at y Pennaeth. Os na ellir datrys y broblem yna fe fydd y gwyn yn cael ei throsglwyddo at y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg Leol. Mae amser yn cael ei ddarparu o fewn yr Ysgol ar gyfer hyfforddi staff ac er mwyn rhoadru gwybodaeth drwy'r CADY. Cedwir cofnod o'r cyrsiau ac mae'r Ysgol yn atgyfeirio disgyblion at athrawon ymgynghorol am gefnogaeth pellach yn ol angen.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes Bolisi Cydraddoldeb yn ogystal â Pholisi GwrthFwlio ar wahân ac mae'r Llywodraethwyr a'r Pennaeth yn ymwybodol o'u dyletswydd i hyrwyddo hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabled, oedran ac iaith yn eu cwricwlwm, dysgu a gwasanaethau fel yr hyrwyddir yn ein gweledigaeth ysgol "Gan ddathlu ein hamrywiaeth; pob cefndir a gallu, pob crefydd, rhywoliaeth a hil, cawn ddatblygu disgyblion sy'n teimlo'n hyderus yn eu crwyn eu hunain." Mae'r ddau bolisi a grybwyllwyd eisoes yn diffinio 'bwlio', 'troseddau casineb', 'am digwyddiadau casineb' ac 'aflonyddu' yn glir. Mae'r ysgol yn cofnodi ac yn monitro 'troseddau a digwyddiadau casineb' a sut y cânt eu datrys. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol ac awdurdod lleol gofnodi ac adrodd ar bob digwyddiad canfyddedig sy'n ymwneud â nodwedddion gwarchodedig. Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhedeg adroddiadau tymhorol yn ymwneud â'r holl gategoriâu. Pwrpas adrodd ddiwyddiadau yw galluogi casglu gwybodaeth am nifer a natur y digwyddiadau ac adnabod tueddiadau sy'n datblygu. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio mewn ffordd gefnogol i ddatblygu a rhannu arfer da. Heb gasglu a chofnodi gwybodaeth, mae'n anodd cael darlun cywir o faint o fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb ac aflonyddu neu fesur pa mor effeithiol yw strategaethau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae Ysgol Gymraeg Pen-y-Groes yn sicrhau y bydd ethos yr ysgol yn rhoi i'r plant yr amgylchedd iawn i dyfu'n aelodau o gymdeithas aml-ddiwylliannol gan barchu eraill a dangos diddordeb yn eu buddiannau. Mae'n bwysig eu cynorthwyo i barchu ffyrdd eraill o fyw; i'w gwneud yn ymwybodol bod ffyrdd o fyw moesol a bwriadol sydd yn gyffredin i bob cenedl a diwylliant; ac i fod yn garedig a thrugarog wrth bawb beth bynnag fo'u cefndir diwylliannol.

Presenoldeb ac Absenoldebau

Targed Presenoldeb yr Ysgol oedd 95%. Ni chyflawnwyd hwn yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf gyda presenoldeb o 93.6%

Ceir cysylltiad amlwg rhwng diffyg presenoldeb a diffyg cyflawniad. Dylai disgyblion ddod i'r ysgol bob diwrnod ysgol lle gallent. Dylai rhieni/gwarchodwyr annog eu plant i fynychu'r ysgol a phwysleisio'r angen i fod yn bresennol er mwyn cyrraedd eu potensial. Os nad yw disgybl yn bresennol yn yr ysgol, gofynnir i rieni/warchodwyr ffonio'r ysgol ar ddiwrnod yr absenoldeb er mwyn rhoi gwybod nad yw eu plentyn yn yr ysgol. Er mwyn sicrhau fod y disgybl yn ddiogel gartref a bod yna reswm dilys pan nad yw'r disgybl yn yr ysgol, gweithredir system o gysylltu â rhieni ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb a phob diwrnod arall os nad oes rheswm wedi ei rhoi am yr absenoldeb, e.e. sâl am rhai diwrnodau ayb. Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhieni/gwarchodwyr disgyblion sydd yn absennol drwy ffonio unwaith mae'r gofrestr wedi cau. Disgwylir i rieni/warchodwyr sicrhau eu bod nhw'n mynd ar wyliau teuluol yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r ysgol yn ymrwymedig i bolisi canolog y Sir o beidio awdurdodi gwyliau yn ystod tymor ysgol. Os yw disgybl yn mynd ar wyliau nad yw wedi cael ei awdurdodi gan yr ysgol yna cyfrifir fel absenoldeb heb awdurdod.

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol a/neu unedau cyfeirio disgyblion yn gyson, a hynny heb awdurdodiad.

Yn yr achosion isod mi fydd yr ysgol yn gwneud cais i'r Gwasanaeth Lles Addysg gyflwyno HCB :

- Pan fo o leiaf 10 'sesiwn' heb awdurdodiad (sef 5 diwrnod ysgol) yn ystod y tymor presennol (nid oes yn rhaid iddynt fod yn olynol);
- Disgyblion yn cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben yn gyson h.y. mwy na 10 sesiwn yn ystod y tymor presennol;
- Pan fydd rhiant/gofalwr wedi methu â chysylltu â'r ysgol a/neu'r Gwasanaeth Lles Addysg i geisio gwella presenoldeb, ond nad oes camau wedi'u cymryd i gyflwyno cosb yn y llys;
- Cyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau nas awdurdodwyd gan yr ysgol;
- Mae disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac mae'n absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol

Polisïau a Phrosbectws

Rhoddir Prosbectws i rieni pan dderbynnir disgyblion i'r ysgol am y tro cyntaf. Adolygir polisïau ysgol yn rheolaidd mewn ymgynghoriad â'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r holl bolisïau ar gael i'w gweld yn yr ysgol gan drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Adeiladau/lechyd a Diogelwch

Mae'r Llywodraethwyr yn falch o'r ffordd y mae'r disgyblion a'r ymwelwyr yn parchu'r adeilad. Mae'r plant yn gwerthfawrogi'r holl waith a wneir ac mae'r amgylchedd yn cynnig lle i bob plentyn. Mae'r addasiadau diweddar i'r gathiau, a gosod giât newydd i gerddwyr yn yr ysgol wedi sicrhau safle diogel i staff, disgyblion ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae angen i bob ymwelydd ymweld â swyddfa'r ysgol er mwyn cael mynediad i'r ysgol ac i fewngofnodi ac allan. Mae pob iard ysgol yn addas i'r diben ac mae pob giât wedi'i chloi'n ddiogel. Mae gan yr ysgol Bolisi lechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau amgylchedd diogel i'r holl staff, disgyblion ac ymwelwyr â'r safle.

Cyfleusterau

Mae gan yr ysgol y cyfleusterau toiled angenrheidiol i ddisgyblion mewn ysgol o'i maint ac maent yn cael eu glanhau a'u harchwilio ar ddechrau a diwedd pob diwrnod ysgol a thrwy gydol y dydd hefyd.

Cyllid

Mae datganiad ariannol y flwyddyn 2022/2023 wedi ei atodi i'r adroddiad hwn a bydd gwybodaeth am y flwyddyn ysgol hon ar gael o'r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn. Mae gwybodaeth ariannol yn ymwneud â'r ysgol ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol, ddim ond I chi drefnu gyda'r Pennaeth o flaen llaw.

Treuliau Llywodraethwyr

Ni chyflwynwyd ceisiadau am dreuliau.

Argymhellion Estyn 2022

A1 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

A2 Cryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl yn llawn

Canfyddiadau Ymweliad Interim Estyn Chwefror 2025

Gwella medrau ysgrifennu disgyblion

- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg y disgyblion yn dda.
- Mae staff yn fodolau rôl iaith cadarn. Maent yn hybu disgyblion i ddefnyddio iaith gywir, sy'n cynnwys iaith a thermoleg sy'n gysylltiedig yn benodol gyda maes dysgu neu bwnc penodol yn gyson. Mae'r sesiynau datblygu medrau llafar disgyblion yn ddyddiol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt adalw a defnyddio patrymau iaith mewn amgylchedd hwyliog a chefnogol.
 - O ganlyniad, mae medrau llafar Cymraeg llawer o'r disgyblion yn dda. Maent yn sgwrsio'n hyderus gyda'u cyfoedion a staff ac yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith sydd o fewn eu profiad yn gywir, ar y cyfan.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol.
- Mae staff yn darparu gweithgareddau mewn cynlluniau perthnasol er mwyn adeiladu ar ddysgu blaenorol y disgyblion yn effeithiol. Maent yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu cywirdeb iaith yn gyson dros amser.
- Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n sicrhau ystod eang o ffurfiau ysgrifennu priodol i ddisgyblion. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau ysgrifennu dros amser.

Cryfhau darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl yn llawn

- Mae athrawon wedi cynllunio darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn synhwyrol er mwyn sicrhau fod bob aelod o staff yn deall y drefn newydd.
 - Mae arweinwyr yn cynnwys elfennau o ADY ym mhob blaenoriaeth ysgol gyfan os yn berthnasol, i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn ystyried y ddarpariaeth wrth gynllunio gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion bob disgybl.
 - Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) yn deall ei rôl ac yn adnabod y disgyblion yn dda. Mae'n sicrhau bod athrawon a'r teuluoedd yn ganolog wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Unigol effeithiol.

- Mae arweinwyr wedi datblygu gweithdrefnau cadarn i adnabod anghenion disgyblion yn llwyddiannus o oedran cynnar. Maent yn gweithio yn agos gyda'u teuluoedd er mwyn cynnig y ddarpariaeth mwyaf addas i ddisgyblion yn yr ysgol ac yn y cartref.
- Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r holl staff fynychu hyfforddiant ar agweddau gwahanol o ADY sydd yn berthnasol ar gyfer yr ysgol. Mae hyn yn rhoi'r hyder a'r gallu i'r staff ddarparu gweithgareddau i gefnogi bob disgybl i feithrin eu lles a gwneud cynnydd yn eu dysgu.
- Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion eu dysgwyr a'r dulliau mwyaf effeithiol i'w gweithredu er mwyn eu cefnogi i ddysgu. Mae arweinwyr yn sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr ysgol sydd o fudd i disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol

Blaenoriaethau ysgol 2025/26:

Blaenoriaeth 1: Codi safonau ieithyddol dysgwyr gan barhau i weithredu cynlluniau llafar ac ysgrifennu. Datblygu medrau darllen y dysgwyr ymhellach i godi safonau iaith dysgwyr.

Blaenoriaeth 2: Cyflwyno addysgu mathemateg o ansawdd uchel drwy ymgorffori dulliau addysgeg effeithiol sy'n meithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau disgyblion.

Datblygu datrysyr problemau hyderus a galluog drwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion ddyfnhau eu dealltwriaeth fathemategol a'i chymhwyso mewn cyd-destunau ystyrlon, go iawn.

Blaenoriaeth 3: Addasu cynlluniau meysydd dysgu a phrofiad ein cwricwlwm er mwyn sicrhau datblygiad clir o ran medrau a phendant a chyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth.

Blaenoriaeth 4: Sicrhau bod cyfleoedd asesu a thracio wedi eu cynllunio a bod systemau ar draws yr ysgol yn cael eu datblygu ymhellach i sicrhau cynnydd disgyblion

Sicrhau tracio cyson o presenoldeb a phrydlondeb disgyblion o fewn grwpiau penodol

CARDIFF COUNCIL/GYNGOR CAERDYDD				
SCHOOLS OUTTURN OF EXPENDITURE/CANLYNIAD GWARIANT YSGOLION 2024-2025				
Governing Body/Corff Llywodraethu of: Ysgol Gynradd Gymraeg Pen Y Groes				
	Governor Approved Budget/Cyllideb a Gymeradwywyd		Actual Expenditure/ Gwariant Cyflawnedig	
	£	£	£	£
Staffing costs/Costau Staff				
Teaching Costs/Costau Addysgu	451,359		470,234	
Special Needs Teachers/Athrawon Anghenion Arbennig	69,599		73,216	
Teachers for statemented pupils/Athrawon ar gyfer disgyblion sy'n destun datganiad	0		0	
Short Term Supply/Llanw Byr Dymor	0		0	
Long Term Supply/Llanw Hir Dymor	13,578		29,197	
Special Needs Support Staff/Staff Cymorth Anghenion Arbennig	0		0	
Nursery Assts/ Teachers Aides / Adult Helpers/Cynorthwgywyr Meithrinfa/ Cymhorthion Athrawon / Cynorthwgywyr	85,132		72,012	
Foreign Language Assistants/Cynorthwgywyr Ieithoedd Tramor	0		0	
Technicians/Technegwyr	0		0	
Mid Day Supervisors/Gorychwylwyr Canol Dydd	0		0	
Library Staff / Attend Officer/Staff Llyfrgell / Swyddog Presenoldeb	0		0	
Administrative Staff/Staff Gweinyddol	31,069		31,113	
Non teaching supply costs/Costau llanw staff heb fod yn athrawon	0		0	
Training Costs/Costau hyfforddi	3,805		1,986	
Other Staff Costs/Costau staff eraill	13,241		61,897	
Performance Management/Rheoli Perfformiad	0		0	
Total Staffing Costs/Cyfanswm Costau		667,783		739,654
Premises Related Costs/Costau Eiddo				
Caretaking Staff/Staff Gofalwyr	14,779		15,944	
Domestic Staff/Staff Domestig	5,473		2,376	
Grounds Staff/Staff y Tir	900		981	
Cleaning Costs/Costau Glanhau	32,132		32,848	
Energy Costs/Costau Ynni	24,420		24,779	
Rates/Cyfraddau	0		0	
Repairs and Maintenance/Atgwyweiriau a Water/Diwr	6,483		11,331	
	3,478		2,884	
Total Premises Related Costs/Cyfanswm		87,665		91,143

Total Premises Related Costs/Cyfanswm		87,665		91,143
Transport Costs/Costau Cludiant				
Pupil Transport Costs/Costau Cludiant Disgyblion	0		50	
Staff Transport Costs/Costau Cludiant Staff	0		0	
Vehicle Costs/Costau Cerbydau	0		0	
Total Transport Costs/Cyfanswm Costau		0		50
Supplies and Services/Cyflenwadau a				
Teaching Materials/Adnoddau Addysgu	12,000		9,239	
Equipment, Furniture, Materials & music				
tuition/Offer, Dodrefn, Deunyddiau a hyfforddiant	110		90	
Library Books & Materials/Llyfrau a Deunyddiau	0		0	
Catering Costs/Costau Arlwygo	1,575		1,556	
Unallocated / Savings to be found/Arian heb ei ddsbarthu / Cynllion	-49,869		0	
Communications Equipment and Services/Offer a Gwasanaethau Cyfathrebu	3,900		8,653	
Consultants Fees/Ffioedd Ymgynghorwyr	0		0	
Examinations Fees/Ffioedd Arholiadau	0		0	
Games & School Activities/Gemau a Gweithgareddau Ysgol	5,000		9,273	
Clerk to Governing Body/Clerc y Corff	999		972	
Other office costs/Costau swyddfa eraill	500		498	
Printing & Stationery/Argraffu a Deunydd Ysgrifennu	2,000		1,548	
Pupil Exclusions/Gwaharddiadau Disgyblion	0		0	
Subsistence and expenses/Cynhaliadau a threuliau	0		0	
Total Supplies and Services/Cyfanswm Cyflenwadau a Gwasanaethau		-23,785		31,828
Central Services/Gwasanaethau Canolog				
School Meals/Prydau Ysgol	0		0	
Service Level Agreements/Trefniadau Lefel	11,501		11,156	
Total for Central Services/Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau Canolog		11,501		11,156

Income/Incwm				
Additional Central Funding/Nawdd Canolog	-113,573		-47,790	
Community Education/Addysg Cymunedol	0		0	
Donations/Rhoddion	-5,000		-8,428	
Lettings/Gosodiadau	0		0	
Other Income/Incwm arall	0		-1,839	
Grant Income/Incwm rhent	0		-146,620	
Sales/Gwerthiannau	0		0	
School Meals Recharge/Talu am Brydau Ysgol	0		0	
Training and Tuition Income/Incwm Hyfforddiant	0		0	
Total Income/Cyfanswm Incwm		-118,573		-204,677
Interest and Other/Llog ac Arall				
Interest on investments/Llog ar fuddsodiadau	0		0	
School Investments/Buddsodiadau Ysgol	0		0	
Withdrawal Investments/Buddsodiadau Dileadau	0		0	
School Deficit/Gwariant Ysgol				
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Temporary Loans/Benthyciadau Dros Dro	0		0	
Interest/Llog	0		0	
Total Interest and Other/Cyfanswm Llog ac		0		0
Total Net Expenditure/Cyfanswm Gwariant		624,591		663,155
Less Uninvested Balance Brought Forward/Llai'r Balans na fuddsodwyd a ddygwyd ymlaen		11,819		
Less earmarked Rates/Llai'r Cyfraddau a glustnodwyd		0		0
Contribution to / from balances/Cyfraniad i / o falansys				-32,745
Revised Net Expenditure/Gwariant net Ddiwygiedig		636,410		636,410

Summary/Crynodeb				
Total resources available in 2024-2025 / Cyfanswm adnoddau ar gael yn 2024-2025			£	
School balances Brought forward from 2023- 2024/Balansau ysgol a ddygwyd ymlaen o 2023-2024		-11,819		
School Loans Brought forward from 2023- 2024/Benthyciadau Ysgol a Ddygwyd ymlaen o 2023- Prior Year Adjustment/Cyn Addasiad Blwyddyn		0		
Total delegated resources/Cyfanswm adnoddau dirprwyedig		636,410		
Total/Cyfanswm		624,591		
Actual Expenditure/Gwariant Cyflawnedig		669,155		
Less change in investments/Llai'r newid mewn buddsoddiadau		0		
Less Movements in Temporary Loan/Llai'r Symudiadau â Benthyciadau Dros Dro		0		
Less variance in earmarked rates/Llai'r amrywiad â chyfraddau a glustnodir		0		
Total balance carried forward to 2025- 2026/Cyfanswm Balans a ddygwyd ymlaen i		-44,564		
Statement of Balances Held/Datganiad			£	
Uninvested Balance as at 31st March 2025/Balans na fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025		-44,564		
Invested Balance as at 31st March 2025/Balans a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2025		0		
Outstanding Loans as at 31st March 2025/Benthyciadau dros ben ar 31 Mawrth 2025		0		
Total Balances held as at 31st March 2025/Cyfanswm Balansau ar 31 Mawrth 2025		-44,564		
for Corporate Director Resources Prif Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau		